

## COMISIYNYDD PLANT CYMRU

### Disgrifiad Swydd

#### 1. Manylion y Swydd

**Teitl y Swydd:** Cyngorydd Polisi

**Prif Leoliad:** Tŷ Ystumllwynarth, Llansamlet, Abertawe

**Adrodd i:** Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus

#### 2. Prif bwrpas, amcan a chyd-destun y rôl (crynodeb)

Prif bwrpas y rôl hon yw cynorthwyo Comisiynydd Plant Cymru i gyflawni newid cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru a phrif-ffrydio egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) i ymarfer pob dydd trwy wneud y canlynol:

- dylanwadu ar ddatblygu a chyflenwi polisi a deddfwriaeth cenedlaethol yng Nghymru,
- monitro effaith polisiau Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chyrff cyhoeddus eraill ar blant a phobl ifanc Cymru,
- darparu gwybodaeth allweddol i Gomisiynydd Plant Cymru ar faterion a fydd yn effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru,
- sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yng Nghymru yn ganolog i waith y swyddogaeth Bolisi ac yn llywio'r rhaglen waith,
- darparu gwybodaeth i amrywiaeth o gynulleidfaoedd ar faterion a fydd yn effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc trwygwblhau adolygiadau, ymchwiliadau a gweithgareddau ymchwil.

### 3. Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau

- Dadansoddi a dylanwadu ar fentrau polisi allweddol o eiddo Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chyrrff cyhoeddus eraill, a monitro eu heffaith ar lesiant plant, pobl ifanc a theuluoedd ar lefel genedlaethol a lleol, gan roi sylw i bersbectif plant a phobl ifanc.
- Cefnogi a chychwyn syniadau polisi a fydd yn diogelu a hyrwyddo hawliau a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru.
- Cyfrannu at raglen o adolygu gweithdrefnau cwynion, trefniadau eiriolaeth a gweithdrefnau datgelu camarfer yn y gwasanaethau rheoledig i blant yng Nghymru. Bod yn rhan o gasglu ac archwilio tystiolaeth a llunio argymhellion.
- Cynllunio ac arwain prosiectau, gan gynnwys gwerthusiadau gwasanaeth ac ymchwil, yn unol â'r pwerau a roddwyd i Gomisiynydd Plant Cymru a'r cynlluniau gwaith blynyddol a strategol.
- Canfod materion sy'n effeithio ar hawliau a lles plant y mae angen gweithredu yn eu cylch, a dod â nhw at sylw Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus a Chomisiynydd Plant Cymru.
- Rhoi cyngor ac arweiniad i'r Tîm Rheoli o ran blaenoriaethau gwaith ar gyfer y cynlluniau gwaith blynyddol a strategol.
- Derbyn cyfarwyddyd gan Bennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus i ganfod ffyrdd effeithiol o gyflwyno'r materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc i'r Llywodraeth a chynulleidfaoedd eraill.
- Derbyn cyfrifoldeb am feysydd gwaith sy'n ymwneud â themâu polisi, gan ddatblygu arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau.
- Cynhyrchu a hyrwyddo briffiadau polisi i'r Comisiynydd a chydweithwyr eraill. Deall, dehongli a chyflwyno canfyddiadau ymchwil, deddfwriaeth a data meintiol, gan gasglu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ac ymchwil newydd.
- Meithrin perthnasoedd gwaith cadarn, a bod yn ffrind beirniadol annibynnol, uchel ei barch i'r holl asiantaethau yn y sectorau statudol a gwirfoddol y mae eu gwaith yn berthnasol i swyddogaethau'r Comisiynydd.
- Cynrychioli Comisiynydd Plant Cymru mewn gweithdai, cynadleddau a seminarau, a mynychu gweithgorau allweddol Llywodraeth Cymru a sefydliadau gwirfoddol.
- Ysgrifennu amrywiaeth o adroddiadau, gohebiaeth, cyhoeddiadau polisi a briffiadau o ansawdd uchel, wedi eu seilio ar dystiolaeth, a hynny ar gyfer amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc.
- Gweithredu fel aelod o dîm y prosiect ar brosiectau mwy i'r sefydliad cyfan, gan ddilyn cyfarwyddyd rheolwr y prosiect, a gweithredu fel rheolwr prosiect yn achos prosiectau a darnau penodol o waith ar gais.
- Gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc i sicrhau bod eu persbectif yn cael dylanwad wrth baratoi adroddiadau ac ymgynghoriadau polisi.

- Gwrando ar ein paneli ymgynghorol arbenigol o blant ac oedolion, a chadw mewn cysylltiad â nhw.
- Cynnal gwerthoedd y Comisiynydd a'i hymroddiad i fod yn bencampwr hawliau plant ac i wrando ar blant a'u cynnwys mewn agweddau allweddol ar waith y Comisiynydd.
- Cefnogi gwaith ehangach gyda phlant a phobl ifanc ar gais ac ar lefel briodol, yn unol â gwerthoedd gweithle Comisiynydd Plant Cymru.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill oddi mewn i gwmpas y radd, fel y bydd y Tîm Rheoli yn barnu sy'n angenrheidiol.

## Manyleb Person ar gyfer Swyddog Polisi i Gomisiynydd Plant Cymru

### 1. Cyraeddiadau/Cymwysterau

Gradd neu gymhwyster lefel broffesiynol mewn disgyblaeth berthnasol (e.e. addysg, y gyfraith, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, chwarae, gwaith ieuencid, cyfiawnder ieuencid) neu brofiad perthnasol cyfatebol

### 2. Sgiliau

Lefel uchel o lythrennedd, a sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig ardderchog;  
Y gallu i gyflwyno gwybodaeth gymhleth ar lefel briodol i ystod eang o gynulleidfaoedd;  
Sgiliau dadansoddi cywir, gan ddefnyddio ystadegau a deallusrwydd i ddylanwadu ar lunwyr penderfyniadau;  
Sgiliau dylanwadu datblygedig, gan gynnwys y gallu i ennyn hyder amrywiaeth eang o randdeiliaid, o blant a phobl ifanc i lunwyr penderfyniadau ar y lefel uchaf; a  
Byddai'r gallu i gyfathrebu'n ddigonol yn Gymraeg gydag aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid allanol o fantais, ond nid yw'n sgil hanfodol ar gyfer y swydd hon.

### 3. Gwybodaeth / Profiad

Gwybodaeth brofedig am faterion polisi ac ymarfer sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, ac effaith swyddogaethau cyrff cyhoeddus, gwirfoddol ac elusennol ar eu hawliau a'u lles;  
Gwybodaeth am CCUHP a'r hyn sy'n angenrheidiol i brif-frydio hawliau plant i ymarfer pob dydd; Hanes o lwyddo i gyflawni amcanion a chael hyd i atebion arloesol i broblemau;  
Profiad a thystiolaeth eang o weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill ar bob lefel er mwyn dylanwadu a chyflawni newid ar gyfer plant a phobl ifanc;  
Yn arddangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth strategol a gwleidyddol o strategaeth ac agendâu polisi llywodraeth leol a chenedlaethol yng nghyswllt CCUHP a hawliau a lles plant a phobl ifanc;  
Yn arddangos dealltwriaeth o'r cyd-destun Cymreig a'r iaith Gymraeg;  
Byddai profiad blaenorol o weithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc o fantais; a  
Byddai profiad blaenorol o ddatblygu safbwyntiau polisi seiliedig ar dystiolaeth, paratoi briffiadau polisi a nodi argymhellion polisi o fantais.

### 4. Nodweddion Personol

Yn arddangos brwdfrydedd i gyfranogi yn rhaglen dysgu Cymraeg y sefydliad, er mwyn datblygu neu wella sgiliau yn y Gymraeg;  
Yn arddangos hanes o ganolbwyntio ar ganlyniadau, bod yn llawn ysgogiad, yn rhagweithiol, yn benderfynol, yn gadarnhaol ac yn meddu ar wydnwch wrth weithio;  
Yn arddangos uniondeb proffesiynol, hygrededd a sensitifrwydd i gynnal hyder ac ymddiriedaeth;  
Yn arddangos brwdfrydedd ynghylch bod yn llysgennad effeithiol dros hawliau plant ac awydd i wella canlyniadau plant a phobl ifanc;  
Yn arddangos gallu i ymwneud â phobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd a meithrin perthnasoedd gwaith cynhyrchiol.

### 5. Gofynion Arbennig y swydd

Mae'r Comisiynydd Plant yn gweithio ar draws Cymru. Bydd gofyn bod deilydd y swydd yn teithio'n fynych i Gaerdydd ac yn rheolaidd, er yn llai aml, i leoliadau eraill ledled Cymru. Defnyddir trenau i deithio pryd bynnag y mae hynny'n ymarferol.